

CYNGOR ADNEWYDDU'R ECONOMI

Y DIWEDDARAF AM TRAFNIDIAETH CYMRU A GWASANAETH RHEILFFYRDD CYMRU A'R GORORAU

Cyflwyniad

Mae prosesau seneddol i ddatganoli swyddogaethau y masnachfaint rheilffyrdd i Weinidogion Cymru o ran gwasanaeth Cymru a'r Gororau yng Nghymru bellach wedi dod i ben, ac mae gennym bellach gyfres o gytundebau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth sydd wedi ein galluogi i gaffael y gwasanaeth rheilffyrdd newydd ar gyfer Cymru a'r Gororau a'i reoli o'r 14 Hydref 2018.

Dyfarnu contract newydd gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

Rydym yn ddiweddar wedi cyhoeddi bod y contract i weithredu a datblygu gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru wedi'i ddyfarnu i KeolisAmey. Bydd y contract yn rhedeg am 15 mlynedd a bydd yn gweld datblygiadau ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys ardal Metro De Cymru ble y bydd angen gwelliannau sylweddol i'r seilwaith i gyflawni ein gwledigaeth.

Mae Trafnidiaeth Cymru, cwmni lled braich dielw gan Lywodraeth Cymru, wedi arwain y broses gaffael a bellach wedi sefydlu fel partner i'r cwmni newydd i sicrhau bod gwelliannau gwirioneddol yn cael eu gwneud.

Darparu ar gyfer Cymru a'r Gororau yn y Dyfodol

Prif ffocws y broses gaffael oedd mynd y tu hwnt i ddisodli gwasanaethau rheilffyrdd a'u cyfnewid am yr un gwasanaethau, gan ddefnyddio'r dulliau sy'n cael eu cyflwyno gan y buddsoddiad i gynnwys cyflawni amcanion traws-Lywodraethol o fewn contract y gwasanaethau rheilffyrdd. Mae strwythur y contract wedi'i gynllunio i fod yn gyson gydag agenda Diwygio Llywodraeth Leol.

Bydd prif flaenoriaethau'r teithwyr yn ganolog i'r gwasanaeth newydd, gan ganolbwyntio ar wella'r pryderon ynghylch nifer y seddau, amseroedd teithio, pa mor aml yw'r gwasanaethau, ansawdd a glanweithdra. Y bartneriaeth hon fydd y ffordd ar gyfer datblygu a darparu model y Metro mewn rhannau eraill o Gymru, gan brysuro dyfodiad Metro'r Gogledd.

Mae'r rhaglen fuddsoddi yn werth bron i £2 biliwn yn gyffredinol - gyda £738 miliwn ar Metro De Cymru, £800 miliwn arall mewn cerbydau newydd a bron i £200 miliwn i foderneiddio'r 247 o orsafoedd. Yn ogystal â'r fecanwaith yn y contract i gapio a rhannu elw, nid yw'r cwmni yn disgwyl talu difidendau i'w randdeiliaid am y pum mlynedd gyntaf. Yn hytrach, bydd yn ailfuddsoddi'i elw.

Ac fel gyda'n Contract Economaidd newydd, buddsoddi cyhoeddus at bwrpas cymdeithasol yw congifaen ein ffordd newydd o ymdrin â'r rheilffyrdd.

Bydd y contract newydd yn sicrhau manteision sylweddol yn benodol o ran:

- Lleihau allyriadau carbon 25 y cant ar draws y gwasanaeth cyfan erbyn y bumed blwyddyn.
- Gwelliannau mewn costau teithio a thocynnau, gan gynnwys ehangu tocynnau clyfar, cynllun iawndal gwell a thocynnau teithio hanner pris yn cael ei ehangu i bobl ifanc 16-18 mlwydd oed.
- Trenau mwy prydlon, a pherfformiad gwell yn canolbwyntio ar y teithwyr a safonau ansawdd.
- Cynnydd sylweddol yn nifer y seddau
- Rhaglen fuddsoddi hirdymor i wella gwasanaethau
- Cynnydd o 22 y cant yn nifer y milltiroedd ar ddydd Sul o 2019 ymlaen
- Erbyn 2023, bydd 95 y cant o'r teithiau'n cael eu gwneud ar 148 o drenau newydd sbon, gyda thros eu hanner yn cael eu hadeiladu yng Nghymru
- Cyflenwad pŵer ar gael i dros 95 y cant o seddau ar draws pob mathau o gerbydau erbyn 2020, gyda 100% yn cael ei gyflawni erbyn 2022 a chynnydd yn y cysylltedd symudol i bob gorsaf.

Gwelliannau ehangach i wasanaethau trên

Mae'r adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn dilyn ei ymchwiliad i Ganslo Trydaneiddio Rheilffyrdd yn Ne Cymru yn datgan unwaith eto nifer o'r materion yr ydym wedi'u codi dro ar ôl tro gyda Llywodraeth y DU. Mae'n gwneud argymhellion pwysig i Lywodraeth y DU ynghylch ariannu a gwella'r rheilffyrdd a datganoli rhagor o seilwaith y rheilffyrdd.

Mae seilwaith rheilffyrdd effeithiol a dibynadwy yn gwbl angenrheidiol i deithwyr sy'n teithio yng Nghymru a thros y ffin. Er bod y cyfrifoldeb dros ariannu nifer o'r gwasanaethau rheilffyrdd a'r seilwaith yn parhau heb ei ddatganoli, rydym yn parhau i godi yr angen gyda Llywodraeth y DU i gydweithio â ni er mwyn datblygu a darparu'r gwelliannau sydd eu hangen i sicrhau'r rhwydwaith rheilffyrdd y mae ei hangen ar Gymru. Bydd yn bwysig i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig gael eu gwireddu.

Yn gynharach eleni, gelwais ar Lywodraeth y DU i ganiatáu i Gymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddyfarnu masnachfaint y gwasanaethau intercity rhwng Cymru a gweddill y DU.

Y camau nesaf

Byddwn yn parhau i ddiweddarau'r Cyngor am ddatblygiadau o ran rheilffyrdd yng Nghymru.